Sioe Dinbych

Dydd Sadwrn 27 Awst 2011

Hanner Dydd ymlaen

ar Gae Lôn Felin, Ffordd Ystrad, Dinbych

Oedolion £6; Yr Henoed £4

Plant AM DDIM

Am ragor o fanylion ymwelwch â'n gwefan:

www.thedenbighshow.co.uk

Ffeithiau am Sioe Dinbych

Mae Sioe Dinbych yn ddigwyddiad teuluol traddodiadol tu allan a gynhelir yn nhref farchnad hanesyddol Dinbych yn Nyffryn Clwyd. Mae'r Sioe yn cynnig amrywiaeth mawr o adloniant ac yn dod â chymdeithasau lleol ynghyd wrth ddathlu pethau gorau y dref.

Beth sy ar gael?

Bydd y Sioe eleni yn llawn egni gan roi'r cyfle i bob oedran gymryd rhan mewn rhywbeth creadigol, ac i fwynhau'r awyrgylch draddodiadol. Bydd amrywiaeth eang o adloniant.

Cystadlaethau

Bydd y sioe flodau yn cynnig i'n hymwelwyr babell anferth yn llawn o bob math o flodau, ffrwythau a llysiau, peintiadau, crefft law a llawer mwy efo thros 60 cwpan ar gyfer yr enillwyr.
I gael trefnlen i'r sioe a ffurflenni cais cysylltwch â ni neu lawrlwythwch nhw o'r wefan **www.thedenbighshow.co.uk**
Caiff y gystadleuaeth neidio ceffylau digysylltiad ei rhedeg o dan reolau cangen Fflint a Dinbych y Clwb Merlod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Sioe Dinbych.

"Cadwch olwg ar y atyniadau trwy'r dydd yn yr arena adloniant."

Adloniant

Bydd reidwyr Tîm Beiciau Mynydd (MAD)yn perfformio eu harddangosfa beiciau mynydd medrus a syfrdanol efo triciau acrobatig ysblennydd, sbiniau a neidiau. Gall y plant elwa o'r hyfforddi rhyngweithiol rhad ac am ddim ar ôl pob sesiwn sioe.

Adloniant arall

Bydd Sŵ symudol y Jyngl byw efo mathau gwahanol o anifeiliaid y jyngl, tramplin bungi a wal ddringo, gweithdy drymio 'bodhran', arddangosfa bad achub J Saunderson, peli uchel, Pwnsh a Jwdi, adar mewn cewyll, peintio wynebau, dros 50 car clasurol ac arddangosfeydd beiciau a llawer mwy. Gall ymwelwyr ddod â'u cŵn i ddilyn ac ymarfer Cyfarfwyddiadau syml y dosbarth ystwythder cŵn a redir gan dîm medrus a brwdfrydig trwy'r dydd.

Cerddoriaeth fyw

Bydd y diwrnod yn llawn o gerddoriaeth fyw gan y Band Weebag a Band Pres Brenhinol Bwcle.

"Peidiwch â cholli'r Raffl Fawr i gael eich gwobrau 1af £500 2il £100 3ydd £50"

Sioe Anifeiliaid Anwes Hwyl

Gall pobl sy'n caru anifeiliaid anwes (oedolion a phlant) ymuno yn ein cystadleuaeth sioe anifeiliaid hwyl a feirniadir gan filfeddyg lleol. Os hoffech chi gymryd rhan neu eisiau mwy o fanylion dilynwch y cysylltiadau ar: **www.thedenbighshow.co.uk** neu allwch chi gofrestru ar y diwrnod cyn 1y.h.

Sut i ddod o hyd i ni

O'r A55, A525 a'r A543 dilynwch yr arwyddion i Ddinbych. Lleolir maes y Sioe ar Ffordd Ystrad sy'n rhedeg tu ôl i Ysgol Uwchradd Dinbych, ac mae arwyddion trwy'r dref. Côd post y maes ydy LL16 4RH.